# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14 Mawrth 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch recriwtio a chadw athrawon. (WAQ16616)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â chynrychiolwyr diwydiant Prydain ynghylch eu cysylltiad â'r ddarpariaeth addysg wladol. (WAQ16617)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sicrhau bod addysg alwedigaethol yn adlewyrchu anghenion cwmnïau yng Nghymru. (WAQ16618) **R**

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu mentrau addysg iechyd mewn ysgolion yng Nghymru i gywiro'r honiadau bod "cyfran uwch o bobl sâl yng Nghymru". (WAQ16619) **R**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch cyllido ysgolion yn 2002-03. (WAQ16620) **R**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa wybodaeth sydd gan y Gweinidog ar y cynnydd sydd ar y gweill yng nghyllidebau ysgolion yng Nghymru yn 2002-03. (WAQ16621) **R**

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Faint o ysgolion yng Nghymru sy'n arbenigo mewn addysg i blant sy'n dioddef o awtistiaeth a chlefydau cysylltiedig. (WAQ16622)

**Janice Gregory (Ogwr);** A yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau ag Awdurdodau Addysg Lleol ynghylch darparu gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau ysgol. (WAQ16623)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch rhestrau aros yng Nghymru. (WAQ16624)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y gofal a ddarperir ar gyfer 'symphysis pubis dysfunction' yng Nghymru. (WAQ16625)

**William Graham (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cost a gwerth Arolygon Staff Iechyd yng Nghymru. (WAQ16626)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ei pholisi mewn perthynas â gwella pobl sy’n camddefnyddio cyffuriau. (WAQ16627)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno polisi ar sgrinio cyffredinol ar gyfer canser y brostad. (WAQ16628)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ystyried paratoi arolwg o'r amser y mae cleifion yn gorfod aros cyn gweld eu meddyg teulu. (WAQ16629) **W**

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau amseroedd aros ar gyfer triniaeth i wella dibyniaeth ar heroin yng Nghymru. (WAQ16630)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod yr arian y mae’r Cynulliad yn ei neilltuo ar gyfer trin pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol yng Nghymru yn cael ei wario yn effeithiol. (WAQ16631)

**Janice Gregory (Ogwr);** A yw’r Gweinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau â llywodraeth leol ynghylch yr hyn y mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol yn ei ddarparu i ofalu am blant yn ystod gwyliau ysgol. (WAQ16632)

**David Melding (Canol De Cymru);** Pa gyfran o’r £500,000 a ddyrannwyd ar gyfer rhaglen sgrinio retinopathi clefyd y siwgr yn 2001-2002 y mae disgwyl iddi gael ei gwario. (WAQ16633)

**David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar roi rhaglen sgrinio retinopathi clefyd y siwgr Cymru gyfan ar waith. (WAQ16634)

**David Melding (Canol De Cymru);** A oes gan y Gweinidog gynlluniau i gynyddu’r cyllid a ddyrennir i Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd y Siwgr yn y dyfodol. (WAQ16635)

**David Melding (Canol De Cymru);** A yw’r Gweinidog yn disgwyl y caiff yr £1 miliwn a ddyrannwyd i Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd y Siwgr ei wario’n llawn yn ystod 2001-2002. (WAQ16636)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y fformwla y cytunwyd arno ar gyfer dyrannu’r grant dioglewch ffyrdd lleol y cyfeiriwyd ato yn WAQ16250 a WAQ16251. (WAQ16637)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar geisiadau ffermydd gwynt Tir Mostyn a Foel Goch. (WAQ16639)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gymorth y mae’r Cynulliad wedi’i roi i Reilffordd Llangollen i’w helpu â’i chynlluniau i greu cysylltiad â’r brif reilffordd yn Rhiwabon. (WAQ16644)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa ymchwil a wnaed i ansawdd y dwr ym moryd Conwy a beth oedd y canlyniadau. (WAQ16641)

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Gofyn i’r Gweinidog a wnaiff ei hadran ystyried rhoi tair lôn ar yr A55 dros Bont Britannia rhwng Ynys Môn a Gwynedd i beri i’r cerbydau symud yn fwy hwylus ar yr adegau prysuraf. (WAQ16654)

**Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pryd y mae’n disgwyl gwneud datganiad arall ar ffordd ymadael newydd i gysylltu porthladd Caergybi â ffordd newydd yr A55 ar draws Ynys Môn. (WAQ16655)

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**Ron Davies (Caerffili);** Pryd y canfu’r Gweinidog am y tro cyntaf bod ei Drefnydd yn gwybod am y trefniant lle y bu’r Ysgrifennydd Parhaol yn trafod â Dirprwy Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru fater ymchwiliad yr heddlu i’w gyn-Ddirprwy Brif Weinidog. (WAQ16638)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog egluro’i gyfrifoldebau o ran Gogledd Cymru a dweud a yw’r cyfrifoldebau hynny yn mynd y tu hwnt i’r rheini a gyhoeddwyd ar Fewnrwyd y Cynulliad. (WAQ16645)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gyfraniad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i wneud tuag at sefydlu Consortiwm Prynu Cymru. (WAQ16640)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa siroedd a gaiff eu cynnwys yng 'Nghonsortiwm Prynu Cymru'. (WAQ16646)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Sut y bydd Consortiwm Prynu Cymru yn hybu buddiannau busnesau a chymunedau lleol. (WAQ16642)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gytuno i gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a fu rhyngddi ag aelodau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru yn ystod y deuddeg mis diwethaf ynghylch ei gyllideb a'i wariant. (WAQ16649)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gytuno i gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a fu rhyngddi â'r Cynghorydd Malcolm Jones o Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ystod y deuddeg mis diwethaf ynghylch cyllideb a gwariant Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. (WAQ16650)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi unrhyw ohebiaeth a fu rhyngddi ag Arweinwyr y Cynghorau yn ystod y deuddeg mis diwethaf ynghylch cyllideb a gwariant Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. (WAQ16651)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion unrhyw alwadau ffôn a wnaed ganddi yn ystod y deuddeg mis diwethaf at aelodau Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru ynghylch ei gyllideb neu'i wariant. (WAQ16652)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa drafodaethau sydd wedi bod rhwng y Gweinidog a gweithwyr misglod moryd Conwy ynghylch ansawdd y dwr. (WAQ16643)

**Peter Rogers (Gogledd Cymru);** A oedd unrhyw un o is-gwmnïau'r grwp Snowie o gwmnïau yn rhan o unrhyw waith contract yng Nghymru yn ystod argyfwng clwy'r traed a'r genau. (WAQ16647) **R**

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gytuno i gyhoeddi geiriad y dyfarniad diweddar yn erbyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru parthed cyllideb Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru. (WAQ16648)

**Elin Jones (Ceredigion);** Faint o incwm mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn ei dderbyn yn flynyddol am osod hawliau chwaraeon ar ei tir a sawl hectar maent yn gosod ar rent am yr un cyfnod. (WAQ16653) **W**